# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 3 IONAWR 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu Mr A M Thomas (Cadeirydd) yn llywyddu.

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| T J Hennegan | P R Hood-Williams | J W Jones |
| P M Meara | R V Smith | T M White |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R C Stewart | Arweinydd/Aelod y Cabinet dros Gyllid a Strategaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Paul Beynon | Chief Auditor |
| Simon Cockings | Senior Auditor |
| Kate Jones | Democratic Services Officer |
| Jeremy Parkhouse | Democratic Services Officer |
| Sandie Richards | Principal Lawyer |

52 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd T M White – Cofnod Rhif 55 - Swyddfa Archwilio Cymru - Llythyr Archwilio Blynyddol 2015/16 - Aelod a Noddwr Cynllun Pensiwn y Cyngor - personol.

Y Cynghorydd R V Smith - Cofnod Rhif 57 - Adroddiad Monitro Archwiliad Mewnol - Ail Chwarter 2016/17 - Llywodraethwr Ysgol yn YGG Pontybrenin ac YG Gŵyr - personol

53 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2016 a'r Pwyllgor Archwilio Arbennig a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir.

Rhoddodd Paul Beynon, Prif Archwiliwr, y diweddaraf am y gofyniad i gynghorwyr gael mynediad i Gofrestr Risgiau a Chronfa Ddata Adran 106.

## 54 PWYLLGORAU CYNGHORI'R CABINET - Y DIWEDDARAF. (LLAFAR)

Bu'r Cynghorydd R C Stewart, yr Arweinydd, yn rhoi'r diweddaraf ynghylch Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet a'u diben.

Amlinellodd mai diben Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet yw galluogi aelodau i gyfrannu'n fwy o ran llunio polisïau. Pwysleisiodd ei bod yn swyddogaeth ar wahân i graffu.

Roedd trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol yn bennaf: -

- Prosiect Oceana;
- A oedd Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet wedi arwain at welliant o ran llunio polisïau;
- Yr angen i sicrhau nad oedd gorgyffyrddiadau rhwng Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet a Chraffu er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac amser swyddog.
- Rhoddodd Pwyllgorau Cynghori'r Cabinet wybodaeth sylweddol i'r aelodau;
- System ddeuoliaeth
- Cynnwys yr aelodau'n well ym Mhwyllgorau Cynghori'r Cabinet
- Cylch gorchwyl a'r angen/gofyn am unrhyw newidiadau
- Gwaith a dderbyniwyd gan Bwyllgorau Cynghori'r Cabinet

Diolchodd yr arweinydd i'r aelodau am y gwaith a wnaed gan Bwyllgorau Cynghori'r Cabinet.

Diolchodd y cadeirydd i'r arweinydd am roi'r diweddaraf i'r pwyllgor am Bwyllgorau Cynghori'r Cabinet.

## 55 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - LLYTHYR ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2015/16.

Rhoddodd Geraint Norman, Swyddfa Archwilio Cymru, grynodeb i'r pwyllgor am Lythyr Archwilio Blynyddol 2015/16 gan amlygu'r meysydd i'w gwella. Cadarnhawyd bod gwaith ar hawliadau grant yn parhau, a byddai adroddiad manwl yn cael ei ddarparu ar ddechrau 2017.

Nodwyd y derbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd, a'u bod bellach wedi'u datrys. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi llwyddo i gynnal y Ffi Archwilio a gyflwynwyd eisoes.

Holodd y pwyllgor am bynciau'r cwestiynau a ofynnwyd gan y cyhoedd. Cadarnhawyd bod y cwestiynau a ofynnwyd yn trafod Ysgol Gynradd Gorseinon, Oceana a chyflog diswyddo ar gyfer uwch-aelod o staff. Gofynnwyd cwestiwn arall yn ddiweddar hefyd ynglŷn â Stadiwm Liberty, ac roedd yn y broses o gael ei ateb.

Gofynnwyd a oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi edrych ar y defnydd o Bwyllgorau Cynghori'r Cabinet. Cadarnhaodd Steve Barry, Swyddfa Archwilio Cymru, fod y cylch gorchwyl a'r rolau'n glir, ac nad oedd unrhyw achos pryder.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y llythyr a'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 56 ADRODDIAD DIWEDDARAF SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU.

Cyflwynodd Steve Barry, Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad diweddaraf ar y gwaith archwilio a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion Gwaith Archwilio Ariannol 2015-16 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe a Gwaith Archwilio Ariannol 2015-16 - Dinas a Sir Abertawe.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor am Waith Archwilio Perfformiad - Dinas a Sir Abertawe. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ar y meysydd canlynol: -

- 2015-16 Asesiad Gwelliant;
- 2015-16 Astudiaethau Llywodraeth Leol;
- 2016-17 Asesiad Gwelliant;
- 2016-17 Astudiaethau Llywodraeth Leol.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a ymatebodd yn briodol. Roedd trafodaethau'n amlinellu ymagwedd strategol cynghorwyr o ran creu incwm a chodi tâl am wasanaethau, llywodraethu a'r Consortia Addysg Ranbarthol, ac yn benodol yr argymhellion a wnaed yn sgîl arolwg ERW gan Swyddfa Archwilio Cymru o ran gwerth am arian. Caiff adroddiad arall ei roi i'r pwyllgor maes o law.

**PENDERFYNWYD:** -

1) Nodi cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf;
2) Dosbarthu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ran egwyddorion allweddol ymagwedd strategol at osod, cynyddu neu gyflwyno taliadau ar gyfer gwasanaethau'r awdurdod lleol.

## 57 ADRODDIAD MONITRO ARCHWILIO MEWNOL - AIL CHWARTER 2 2016/17.

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr yr Adroddiad Monitro Archwiliad Mewnol ar gyfer Ail Chwarter 2016/17.

Adroddodd nad oedd unrhyw swyddi gwag yn yr Is-adran Archwilio Mewnol bellach. Fodd bynnag, roedd aelod o staff ar absenoldeb salwch tymor hir o hyd, ond byddai'n dychwelyd i'r gwaith yn fuan.

Cwblhawyd cyfanswm o 25 archwiliad yn yr Ail Chwarter a dywedodd y Prif Archwiliwr fod nifer mawr o archwiliadau wedi derbyn lefel sicrwydd uchel. Ychwanegodd nad oedd un o'r archwiliadau wedi derbyn lefel sicrwydd cymedrol neu gyfyngedig, a oedd yn newyddion da. Nodwyd hefyd y rhagorwyd ar y targedau y cytunwyd arnynt ar gyfer argymhellion archwiliad.

Rhoddwyd y diweddaraf am Hunanasesiadau Ysgolion Cynradd. Cyhoeddwyd 28 holiadur yn ystod y Chwarter Cyntaf, ac roedd 22 ohonynt wedi'u cwblhau a'u dychwelyd. Byddai'r Prif Archwiliwr yn parhau i ddilyn yr holiaduron rhagorol ac ystyried unrhyw welliannau er mwyn gwella'r broses ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Yn ystod yr Ail Chwarter, cafwyd 2 ymweliad dilynol. Dangosodd y ddau ymweliad fod argymhellion i'w rhoi ar waith o hyd, felly byddai ymweliadau pellach yn cael eu trefnu.

Nododd y Cadeirydd fod y chwarter wedi bod yn un llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 58 ADRODDIAD OLRHAIN ARGYMHELLION 2015/16.

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr Adroddiad Olrhain Argymhelliad 2015/16 i'r pwyllgor.

Nododd fod y duedd gyffredinol yn gadarnhaol gyda llai o argymhellion yn cael eu cynnig, a nifer yr argymhellion a roddwyd ar waith yn cynyddu. Byddai'r Prif Archwiliwr yn parhau i adolygu'r argymhellion nad ydynt ar waith neu sydd ar waith yn rhannol.

**PENDERFYNWYD** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 59 ADRODDIAD OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynwyd Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

## 60 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.30 pm

**CADEIRYDD**